**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

SeneddHousing@senedd.cymru

15 Rhagfyr 2022

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 25 Tachwedd, ynglŷn â diogelwch adeiladau yng Nghymru.

Mae diogelwch yng Nghymru yn flaenoriaeth i'r llywodraeth hon. Mae'n hanfodol bwysig bod pobl yn teimlo'n saff a diogel yn eu cartrefi.

Mae'r Llywodraeth hon yn parhau i ddatblygu ein rhaglen adfer adeiladau, gan ddilyn dull gwahanol a mwy cyfannol o ymdrin â diogelwch adeiladau, a hynny drwy beidio â chyfyngu mynediad i gyllid i adeiladau â chladin yn unig. Yn hytrach, rydyn ni'n ystyried y risgiau tân a berir o'r tu allan a'r tu mewn i adeiladau ag uchder o 11 metr neu fwy. Mae'r gwaith hwn yn cydredeg â rhaglen adfer sylweddol i sefydlu cyfundrefn diogelwch adeiladau yng Nghymru, sy'n addas i'r diben.

Mae hwn yn faes gwaith cymhleth iawn, ac rydyn ni'n gweithio'n gyflym i ddod o hyd i ateb – ond rhaid sicrhau mai'r ateb cywir ydyw.

Mae fy swyddogion yn cadw cysylltiad ag aelodau o'r Welsh Cladiators yn rheolaidd. Rydym eisoes wedi ymdrin â'r holl bwyntiau a godwyd yn yr ohebiaeth a ddarparwyd gan y pwyllgor.

Rwyf wedi gwrando ar alwadau'r Welsh Cladiators i ddeddfu adrannau 116–125 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau y DU yng Nghymru, a mynd i'r afael â nhw, a hynny'n gyflym ac mewn deddfwriaeth frys lle bu hynny'n bosibl.

Mae adrannau 116–125 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 yn cymhwyso darpariaethau i orfodi datblygwyr i gyweirio adeiladau. Nid yw'r darpariaethau hyn yn berthnasol ond yn Lloegr, ac ni ellir mo'u cychwyn yng Nghymru drwy is-ddeddfwriaeth. At hynny, ni fyddai'n bosibl eu copïo i mewn i gyfraith Cymru oherwydd eu bod nhw wedi'u teilwra i'r sefyllfa (sylweddol wahanol) sy'n berthnasol yn Lloegr.

Er fy mod o blaid cymhwyso darpariaethau penodol o blith y rheini a nodir yn Neddf Adeiladu 2022, nid yw pob un ohonynt yn addas yng nghyd-destun Cymru. Rwyf hefyd o'r farn nad yw deddfwriaeth frys yn gyfrwng priodol yn yr achos hwn. O ddilyn y dull hwn, perir

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

peidio â rhoi digon o amser i’r pwyllgorau perthnasol graffu ar y Bil na chlywed safbwyntiau rhanddeiliaid ynglŷn â rhinweddau cyflwyno deddfwriaeth o’r fath.

Bydd aelodau’r pwyllgor yn ymwybodol o’r ffaith y cynhaliwyd dadl ar y pwnc hwn – Deddf Diogelu Adeiladau 2022 – yn y Senedd ar 16 Tachwedd. Gellir darllen trawsgrifiad a gwylio fideo o’r ddadl yma.

Bydd y Lywodraeth hon yn cyflwyno ei deddfwriaeth sylfaenol ei hun. Mae’r Prif Weinidog wedi ymrwymo i gyflwyno Bil ar ffurf ddrafft yn ystod tymor y Senedd hon. Nid wy’n gallu cadarnhau pryd yn union y caiff y ddeddfwriaeth ei chyflwyno, ond mae swyddogion yn mynd i’r afael â’r mater hwn ac yn parhau i ddatblygu’r gwaith polisi sylfaenol a fydd yn cefnogi’r broses o lunio deddfwriaeth ddrafft.

Byddaf yn sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol a gyflwynir yn cael yr effaith a fwriedir yng nghyd-destun Cymru.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change